# Cylchlythyr y Rhaglen Anemia

Rhagfyr 2023



## Rhith-gynhadledd BHNOG / Anemia 2024




Bydd rhith-gynhadledd BHNOG 2024 'Y Cynllun Iechyd Gwaed: Gwneud Iddo Weithio i Chi' yn arddangos y gwaith arloesol sydd yn cael ei wneud i gyflawni Cynllun Iechyd Gwaed GIG Cymru. Bydd y gynhadledd yn cael ei chynnal ar ddydd Mawrth, 11 Mawrth 2024 rhwng 09:45am - 04:00pm. Os oes gennych ddiddordeb mewn mynychu ac eisiau mwy o wybodaeth, cysylltwch â ni ar yr e-bost ar waelod y cylchlythyr hwn. Bydd cystadleuaeth bosteri hefyd; i weld rhagor o wybodaeth gan gynnwys agenda'r diwrnod, ewch i https://bhnog.wales.nhs.uk/cy/events/


## Sesiynau Addysg ar Reoli Gwaed Cleifion ar gyfer Meddygon Iau

Mae'r Tîm Anemia yn parhau i ddarparu sesiynau addysg ar Reoli Gwaed Cleifion (PBM) i feddygon iau F1 a F2 ar draws Cymru. Bydd y sesiwn olaf sydd wedi cael ei chynllunio ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn cael ei chynnal ar ddydd Mercher 17 Ionawr 2024. Mae gwerthusiad wedi cael ei gynnal, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i wneud gwelliannau ar gyfer y garfan nesaf a fydd yn y dyfodol, yn rhaglen dreigl wedi'i chynllunio. Bydd y sesiynau ar gyfer 2024-2025 yn cael eu trefnu yn y flwyddyn newydd. Yn ogystal, rhagwelir y bydd sesiynau addysg eraill seiliedig ar drallwysiadau gwaed yn cael eu cynnig i'r grŵp hwn o staff yn seiliedig ar angen.

# Y diweddaraf ar y Set o Brofion Anemia Cymru Gyfan

Mae gwaith wedi bod yn cael ei wneud o fewn Byrddau Iechyd i gyflwyno'r set o brofion anemia cyn-weithredol Cymru Gyfan (cod POAS) newydd fel rhan o’r system LIMS ac yn lleol o fewn Porth Clinigol Cymru (WCP). Mae'r set yma o brofion yn seiliedig ar brofion atgyrch i gefnogi diagnosio anemia yn fwy syml, a dod o hyd i gyflyrau isorweddol a fydd yn helpu i reoli anemia mewn cleifion cyn-weithredol. Mae pedwar o'r chwe Bwrdd Iechyd yng Nghymru bellach yn defnyddio'r set o brofion mewn gwasanaethau cyn-weithredol. Os oes gennych ddiddordeb mewn derbyn mwy o wybodaeth am sut y gall y set o brofion gefnogi rheoli anemia yn eich ardal, cysylltwch â'r tîm rhaglen anemia cyn-weithredol ar y cyfeiriad e-bost ar waelod y cylchlythyr hwn.

# Gweminar dangosfwrdd





Cyflwynodd y tîm Anemia, ar y cyd ag Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW), weminar dros Teams yn ystod amser cinio, yn arddangos y gwaith datblygu hyd yn hyn ar gyfer y dangosfwrdd anemia cyn-weithredol cenedlaethol. Mae'r dangosfwrdd yn cynnwys ffrydiau data o nifer o ffynonellau sy'n deillio o ysbytai, ac yn dangos pa mor aml mae anemia cyn-weithredol yn cael ei ddarganfod mewn cleifion llawfeddygol risg uchel yng Nghymru, a nifer y cleifion y mae eu haearn yn cael ei brofi o ganlyniad. Cafodd y gweminar ei recordio; os hoffech weld copi, cysylltwch â'r tîm anemia ar y cyfeiriad e-bost ar waelod yr e-bost hwn.

# Hyfforddiant ar gyfer Nyrsys ar Weinyddu Haearn Mewnwythiennol (IV)

Mae sesiwn addysg ar weinyddu haearn mewnwythiennol ar gyfer nyrsys cyn-weithredol wedi cael ei threfnu gan y tîm Anemia mewn cydweithrediad â chynrychiolwyr haearn. Nod y sesiwn yw cefnogi timau sy'n darparu therapi haearn mewnwythiennol, a bydd yn cael ei chyflwyno gan Victoria Carlyle sy'n Addysgwr Clinigol, Bydwraig Gofrestredig ac Arbenigwr Pwnc (SME) mewn gweinyddu haearn mewnwythiennol.  Os hoffech fwy o wybodaeth ac os byddai'r hyfforddiant hwn yn berthnasol i chi, cysylltwch â'r tîm ar y cyfeiriad e-bost ar waelod y cylchlythyr hwn.

# Lansio Pecyn Cymorth Anemia




I gyd-fynd â Diwrnod Diffyg Haearn y Byd ar 26 Tachwedd, mae'r tîm Anemia Cyn-weithredol yn lansio'r pecyn cymorth anemia newydd. Datblygwyd y pecyn cymorth ar y cyd â staff clinigol sydd yn gweithio yn y gwasanaethau cyn-weithredol, ac mae'n cynnwys set safonol o adnoddau sy'n anelu at gefnogi rheoli anemia ar draws Cymru. Mae'r llwyth cyntaf o adnoddau wedi'u cwblhau, a bydd mwy yn dilyn wrth i'r rhaglen barhau. I ddarganfod mwy am effaith fyd-eang Anemia ar Ddiwrnod Diffyg Haearn y Byd, ewch i dudalen we Sefydliad Iechyd y Byd yma.

I weld pecyn cymorth Anemia Cyn-weithredol BHNOG, cliciwch yma

Mae'r cylchlythyr hwn wedi'i ddosbarthu ar ran Tîm Rhaglen Anemia BHNOG.

Mae croeso i chi ei anfon ymlaen at gydweithwyr neu bartïon eraill sydd â diddordeb.

I gael rhagor o wybodaeth neu ddiweddariadau, cysylltwch â'r Tîm Iechyd Gwaed:
WBS.bloodhealthteam@wales.nhs.uk

Os nad ydych yn dymuno derbyn y cylchlythyr hwn rhagor, cysylltwch â: WBS.bloodhealthteam@wales.nhs.uk